Asesiadau o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldebau (2015)

Mae'r ffurflen hon yn cyflwyno tystiolaeth bod cydraddoldebau, yr iaith Gymraeg a thegwch wedi cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch polisïau a darparu gwasanaethau yng Nghyngor Dinas Casnewydd.

Daw ein ffocws Cydraddoldebau o Ddeddf Cydraddoldebau 2010: rydym yn ystyried y naw nodwedd warchodedig sy'n ymwneud â chydraddoldeb - oedran, ailbennu rhywedd, anabledd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol.

O dan y Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol, mae gennym ddyletswydd i wneud y canlynol:

- Dileu achosion o wahaniaethu, aflonyddu ac erlid anghyfreithlon
- Gwella cyfle cyfartal
- Meithrin cydberthnasau da

ym mhob un o'r naw nodwedd warchodedig.

O dan Fesur y Gymraeg 2011, ni ellir trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Yng Nghasnewydd rydym yn canolbwyntio ar Degwch drwy'r themâu canlynol: Iechyd, Tlodi, Sgiliau a Gwaith, Cam-drin Domestig a Mynd i'r Afael ag Amddifadedd sy'n Seiliedig ar Ardal.

Maes Gwasanaeth	**Pennaeth Gwasanaeth**	**Y sawl sy'n gyfrifol am yr Asesiad**	**Dyddiad yr Asesiad**
Addysg	James Harris	Deborah Weston	Mai 2017

1. Beth yw'r polisi/gwasanaeth sy'n cael ei asesu?

Gofyn am ganiatâd i symud i ymgynghoriad ffurfiol ar gynnig ad-drefnu ysgol er mwyn sefydlu ysgol gynradd 2 ddosbarth mynediad newydd ar ddatblygiad Glan Llyn ar gyfer plant rhwng 3 ac 11 oed o fis Medi 2018.

2. Beth yw diben newid y polisi/gwasanaeth?

Darparu ysgol gynradd newydd i wasanaethu datblygiad Glan Llyn yn unol ag adran 106 o'r cytundeb cynllunio.

3. Nodweddion Gwarchodedig

Nodwedd Warchodedig	**Pwy yw'r cwsmeriaid/defnyddwyr gwasanaeth/darpar ddefnyddwyr gwasanaeth?**	**Os byddwn yn gwneud y penderfyniad hwn, beth fydd yr effaith bosibl?** **Gall yr effaith fod yn gadarnhaol neu'n negyddol.** **Esboniwch sut y gellir effeithio ar bobl a rhowch dystiolaeth o hyn**	**Cynllun Gweithredu i fynd i'r afael â'r materion a godwyd** **Pa newidiadau neu fesurau ymarferol fyddai'n lleihau'r effaith andwyol ar grwpiau penodol?** **Pa newidiadau fyddai'n cynyddu effeithiau cadarnhaol, e.e. gwella mynediad neu gyfle?** **Gellir ailystyried ar ôl yr ymgynghoriad**	**Pwy sy'n gyfrifol?**	**Amserlen ar gyfer adolygu**
Oedran	Disgyblion oedran ysgol gynradd a'u rhieni/gofalwyr	Bydd y penderfyniad i symud i ymgynghoriad ffurfiol yn galluogi'r Cyngor i geisio barn yr holl randdeiliaid. Bydd darparu lleoedd ysgol gynradd ychwanegol yn ategu dewis rhieni a darpariaeth ysgolion lleol i blant lleol. Ni ddylai hyn gael effaith andwyol sylweddol ar ysgolion eraill ledled y ddinas a'r effaith a ddisgwylir yw darparu dysgu di-dor i ddisgyblion cynradd.	Bydd rhaglen ymgysylltu â rhanddeiliaid lawn yn ategu'r broses ymgynghori ffurfiol. Yn dilyn hyn, caiff adroddiad ymgynghori ei ddrafftio a'i gyhoeddi er mwyn cefnogi a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio. Os caiff ei gymeradwyo, caiff y cynnig ei weithredu ar sail ysgol sy'n tyfu.	Prif Swyddog Addysg	Tachwedd 2017
Ailbennu rhywedd	Ddim yn berthnasol				

Anabledd	Disgyblion oedran ysgol gynradd y mae ganddynt anabledd cofrestredig a'u rhieni/gofalwyr	Bydd y penderfyniad i symud i ymgynghoriad ffurfiol yn galluogi'r Cyngor i geisio barn yr holl randdeiliaid. Bydd darparu lleoedd ysgol gynradd ychwanegol yn ategu dewis rhieni a darpariaeth ysgolion lleol i blant lleol. Ni ddylai hyn gael effaith andwyol sylweddol ar ysgolion eraill ledled y ddinas. Bydd yr ysgol yn gwbl hygyrch a bydd yn gallu cyflawni pob agwedd ar gwricwlwm ysgol brif ffrwd.	Bydd rhaglen ymgysylltu â rhanddeiliaid lawn yn ategu'r broses ymgynghori ffurfiol. Yn dilyn hyn, caiff adroddiad ymgynghori ei ddrafftio a'i gyhoeddi er mwyn cefnogi a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio. Os caiff ei gymeradwyo, caiff y cynnig ei weithredu ar sail ysgol sy'n tyfu.	Prif Swyddog Addysg	Tachwedd 2017
Priodas/Partneriaeth Sifil	Ddim yn berthnasol				
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Ddim yn berthnasol				
Hil	Disgyblion oedran ysgol gynradd a'u rhieni/gofalwyr	Bydd y penderfyniad i symud i ymgynghoriad ffurfiol yn galluogi'r Cyngor i geisio barn yr holl randdeiliaid. Bydd darparu lleoedd ysgol gynradd ychwanegol yn ategu dewis rhieni a darpariaeth ysgolion lleol i blant lleol. Ni ddylai hyn gael effaith andwyol sylweddol ar ysgolion eraill ledled y ddinas.	Bydd rhaglen ymgysylltu â rhanddeiliaid lawn yn ategu'r broses ymgynghori ffurfiol. Yn dilyn hyn, caiff adroddiad ymgynghori ei ddrafftio a'i gyhoeddi er mwyn cefnogi a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio. Os caiff ei gymeradwyo, caiff y cynnig ei weithredu ar sail ysgol sy'n tyfu.	Prif Swyddog Addysg	Tachwedd 2017
Crefydd/cred (neu absenoldeb	Ddim yn berthnasol				

hynny)					
Rhyw	Disgyblion oedran ysgol gynradd a'u rhieni/gofalwyr	Bydd y penderfyniad i symud i ymgynghoriad ffurfiol yn galluogi'r Cyngor i geisio barn yr holl randdeiliaid. Bydd darparu lleoedd ysgol gynradd ychwanegol yn ategu dewis rhieni a darpariaeth ysgolion lleol i blant lleol. Ni ddylai hyn gael effaith andwyol sylweddol ar ysgolion eraill ledled y ddinas a'r effaith a ddisgwylir yw darparu dysgu di-dor i ddisgyblion cynradd.	Bydd rhaglen ymgysylltu â rhanddeiliaid lawn yn ategu'r broses ymgynghori ffurfiol. Yn dilyn hyn, caiff adroddiad ymgynghori ei ddrafftio a'i gyhoeddi er mwyn cefnogi a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio. Os caiff ei gymeradwyo, caiff y cynnig ei weithredu ar sail ysgol sy'n tyfu.	Prif Swyddog Addysg	Tachwedd 2017
Cyfeiriadedd Rhywiol	Ddim yn berthnasol				
Y Gymraeg	Ddim yn berthnasol. Mae'r cynnig yn ymwneud â darpariaeth cyfrwng Saesneg	Ni fydd y penderfyniad yn effeithio ar ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Bydd elfennau Cymraeg ail iaith y cwricwlwm yn gymwys i'r ysgol gynradd newydd i ddisgyblion yn unol â darpariaeth ledled y ddinas	Bydd rhaglen ymgysylltu â rhanddeiliaid lawn yn ategu'r broses ymgynghori ffurfiol. Yn dilyn hyn, caiff adroddiad ymgynghori ei ddrafftio a'i gyhoeddi er mwyn cefnogi a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio. Os caiff ei gymeradwyo, caiff y cynnig ei weithredu ar sail ysgol sy'n tyfu.	Prif Swyddog Addysg	Tachwedd 2017

4. Â phwy mae'r gwasanaeth wedi ymgynghori ynglŷn â'r newid arfaethedig? Pryd y dylid cynnal yr ymgynghoriad newydd?

DS: Mae'n hanfodol bod defnyddwyr gwasanaeth a phartïon eraill sydd â buddiant yn rhan o'r broses gynllunio cyn gynted â phosibl. Dylai cam cychwynnol ymgynghoriad ddilyn themâu cyffredinol. Mae'n briodol gofyn pa wasanaethau sy'n cael eu gwerthfawrogi, sut y gellid newid gwasanaethau a/neu beth y gellid ei wneud yn wahanol. Yna dylai'r adborth hwn lywio eich cynigion achos busnes a'r asesiadau o'r effaith ar degwch a chydraddoldeb. Pan fydd cynigion penodol wedi cael eu llunio, bydd angen ymgynghori arnynt hwy hefyd. Bydd angen i'r holl randdeiliaid a'u safbwyntiau gael eu cynrychioli.

Bydd y cynnig ad-drefnu ysgol bellach yn destun ymgynghoriad ffurfiol â rhanddeiliaid allweddol yn unol â diffiniad Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru.

5. Pa dystiolaeth/ data sydd wedi cael eu defnyddio i gwblhau'r asesiad hwn o'r effaith ar degwch a chydraddoldeb (Bydd hyn yn cynnwys canllawiau lleol a chenedlaethol)

Caiff dogfen ymgynghori ffurfiol ei llunio a chynhelir proses ymgynghori ffurfiol yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, a Chod Trefniadaeth Ysgolion statudol 2013.

6. Sut y bydd y grwpiau perthnasol yn cael eu hysbysu o'r newidiadau a'r asesiadau o'r effaith ar degwch a chydraddoldeb?

Proses ymgynghori statudol ffurfiol â rhanddeiliaid fel yr amlinellir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion statudol 2013. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddi'r holl ddogfennaeth berthnasol ar wefan y Cyngor.

7 Sut y bydd y polisi/ ymarfer yn gwneud Casnewydd yn fwy neu'n llai teg mewn perthynas â'r canlynol:

- Anghydraddoldebau Iechyd
- Tlodi Plant
- Sgiliau a Gwaith
- Mynd i'r Afael â Thrais Domestig
- Camddefnyddio Alcohol a Sylweddau
- Digartrefedd
- Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog

Bydd darparu lleoedd ysgol gynradd ychwanegol mewn ardal lle mae galw mawr yn cefnogi Polisi Derbyn Ysgolion lle ymdrinnir â phob ymgeisydd yn deg ac yn gyfartal. Bydd cael lleoedd mewn ysgolion yn digwydd yn fwy cyfartal a cheir llwybr dysgu di-dor i blant rhwng 3 ac 11 oed.

8. Sut y bydd y gwasanaeth / polisi yn effeithio ar ardaloedd lleol o'r ddinas?

A fydd yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol o ran tegwch a mynd i'r afael ag amddifadedd ardal leol (bydd angen i chi ddefnyddio data gofodol sydd ar gael drwy Broffil Casnewydd a Phroffiliau Ward penodol i ateb y cwestiwn hwn)?

Bydd y newid arfaethedig yn effeithio'n bennaf ar ardal Llanwern y ddinas. Fodd bynnag, gall plant sy'n byw ledled y ddinas wneud cais i'w derbyn i'r ysgol. Nod y Cyngor yw darparu ysgolion lleol i blant lleol a thaith addysgol unigol i blant yn ystod eu hamser yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

9. Yn gryno, sut mae'r gwasanaeth / polisi diwygiedig yn hyrwyddo cysylltiadau da â'r gymuned (cydlyniant)?

Bydd yr ysgol newydd yn gwasanaethu plant a theuluoedd sy'n byw ar ddatblygiad Glan Llyn yn bennaf, gan ddarparu ysgol gynradd leol a meithrin cydberthnasau cadarnhaol yn amgylchedd yr ysgol ac o'i gwmpas.

10. Yn gryno, sut mae'r gwasanaeth / polisi diwygiedig yn hyrwyddo cydraddoldeb?

Mae Polisi Derbyn Ysgolion yn cefnogi system deg a chyfartal ar gyfer dyrannu lleoedd ysgol.

11. Yn gryno, sut mae'r gwasanaeth / polisi diwygiedig yn dileu achosion o wahaniaethu?

Mae Polisi Derbyn Ysgolion yn cefnogi system deg a chyfartal ar gyfer dyrannu lleoedd ysgol.

Cwblhawyd gan: Deborah Weston, Rheolwr Datblygu'r Gwasanaeth Addysg **Dyddiad: Medi 2017**



Cymeradwywyd gan: Sarah Morgan, Pennaeth Addysg Dros Dro **Dyddiad: Medi 2017**